# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-16-08 Papur 1 : 20 Tachwedd 2008

### Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o'r deisebau sydd i gael ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor ar 20 Tachwedd 2008.

### (i) P-03-169 Galwad am Dîm Olympaidd i Gymru erbyn 2012

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau fod tîm o Gymru yn cystadlu yng Ngemau Olympaidd 2012, a phob gemau wedi hynny.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dr Geraint Tudur. Cafwyd 494 o lofnodion.

Linc i'r ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-169.htm

### (ii) P-03-182 Galw am Ymchwiliad i'r Defnydd Economaidd o Arian Ewropeaidd a dderbyniwyd gan Gymru

### Geiriad y ddeiseb

'Trwy'r ddeiseb hon, rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol i lansio ymchwiliad i'r defnydd economaidd o arian Ewropeaidd a dderbyniwyd gan Gymru ers y flwyddyn 2000 ac i'r dulliau arfaethedig ar gyfer darparu'r cronfeydd Cydgyfeirio yn 2007-14.

Rydym yn bryderus yn benodol ynghylch strategaethau sy'n gwrthdaro, megis gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i weithredu fel barnwr a rheithgor, ac ar yr un pryd yn cystadlu â'r sector preifat am yr adnoddau prin hyn.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Fenter Busnesau Gorllewin Cymru.  Cafwyd llofnodion 39 o gyfarwyddwr busnes gorllewin Cymru.

Linc i'r ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-182.htm

### (iii) P-03-183 Coleg Ceredigion

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, myfyrwyr Coleg Ceredigion yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r gwasanaeth rheilffyrdd yn Aberystwyth.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan ddisgyblion Coleg Ceredigion. Cafwyd 10 o lofnodion.

Linc i'r ddeiseb: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-183.htm

### (iv) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn protestio yn erbyn israddio Uned Gofal Arbennig i Fabanod Ysbyty Brenhinol Morgannwg o uned gofal dwys lefel 3 i uned dibyniaeth mawr.

Er ein bod yn deall yr angen i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddigonol a bod gan y staff y cymwysterau addas i sicrhau bod cleifion yn ddiogel, rydym yn gresynu wrth y diffyg buddsoddi sydd wedi arwain at y sefyllfa hon.

Rydym felly yn ceisio'r sicrwydd mai rhywbeth dros dro am yr amser byrraf bosibl yw'r israddio hwn, ac y bydd yr uned yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei hailsefydlu fel uned gofal dwys lefel 3 lawn.'

## Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan grŵp o rieni'r Uned Gofal Arbennig i Fabanod. Cafwyd 2,340 o lofnodion. Mae grŵp Facebook cysylltiol wedi denu tua 3,000 o aelodau:

Mae llythyr gan y prif ddeisebwr i'r Clerc, a rhagor o wybodaeth gefndir, i'w gweld fel PET(3) 16-08 Papur 1A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2008**